

adnabod peryglon a chyfyngiadau y mae angen mynd i'r afael gyda nhw. Yna fe fydd yr astudiaeth dichonoldeb ar gyfer menter gymdeithasol Capel Bethel yn ymgorffori'r canfyddiadau o'r ymgynghoriad i bennu a fyddai agor gofod cymunedol dyddiol sy'n addas i bawb yn hyfyw yn ariannol ac yn gynaliadwy ynghyd â phenderfynu sut mae modd mynd i'r afael â'r risgiau a'r cyfyngiadau sydd ynghlwm â'r gweithgareddau cymunedol presennol. Er mwyn deall anghenion ein cymuned yn gyfan gwbl a manteisio ar safbwynt cyfannol o'r ffordd orau i gefnogi ein cymuned, mae angen inni gymryd rhan mewn ac ymgymryd â'r ymgynghoriad cymunedol. Mae croeso i bawb rannu eu barn.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich barn yn fuan. I wybod mwy neu os hoffech chi fod ynghlwm â'r gwaith, cysylltwch gyda Sue Layland neu Liz Roberts - Grŵp Llywio Prosiect Cymunedol



Grŵp Crefft Gwnïo Bore Llun

Rydym yn cwrdd bob yn ail ddydd Llun, yn y Pafiliwn, 10.00 tan hanner dydd. Croeso mawr i bawb.

Dewch i dreulio cwprwl o oriau gan osgoi prysurdeb y byd go iawn a sgwrsio am eich bywydau a phwytho! Dewch â diod a phrosiect ichi weithio arno.

Cwrs tecstilau ar-lein gan Addysg Oedolion Cymru . . .

- * Ydych chi'n ymddiddori mewn Tecstilau?
- * Hoffech chi ddysgu technegau traddodiadol gweu, gwnïo, ffeltio nodwydd, crosio, clytwaith neu sgiliau peiriant gwnïo?
- * Neu dysgu sgiliau newydd, megis Crosio Tiwnisaidd, crefftau cymysg, uwchgylchu dillad neu facrame?
- * Gallwch ddysgu o'r dechrau neu wella eich sgiliau presennol.
- * ***I gyd o gysur eich cartref!!***

Yna beth am gymryd rhan mewn cwrs ar-lein, byw gan Addysg Oedolion Cymru?

Mae'r gweithdai ar-lein ac anffurfiol hyn ar gyfer dechreuwyr a'r rheiny sy'n lled-brofiadol ac sy'n dymuno dysgu a datblygu eu sgiliau drwy sesiynau cam wrth gam. Bydd cyfle ichi ddysgu mwy ac ennill profiad am yr ystod o dechnegau a deunyddiau.

I wybod mwy, cysylltwch gyda: maria.parry-jones@adultlearningwales

